**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Andrew Scallan
Cyfarwyddwr Gweinyddu Etholiadol
Y Comisiwn Etholiadol

16 Mehefin 2015

Annwyl Andrew

**Bill Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd - asesu'r cwestiwn refferendwm**

Trafodwyd eich e-bost dyddiedig 1 Mehefin 2015 yn ein cyfarfod diweddar ar 15 Mehefin 2015.

Rydym o'r farn bod y ddau gwestiwn y cyfeirir atynt yn eich e-bost, a awgrymwyd gan y Comisiwn Etholiadol yn dilyn y Bil Aelod Preifat yn 2013, yn dderbyniol yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Serch hynny, mynegwyd safbwyntiau gwahanol. Roedd rhai Aelodau o'r farn mai'r cwestiwn sydd wedi'i gynnwys yn y Bil Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (A ddylai'r Deyrnas Unedig aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd?) oedd y cliriach o'r ddau gwestiwn. Fodd bynnag, roedd eraill yn gweld gwerth osgoi cwestiwn Ie/Na. O ganlyniad, gallai fod gwerth ystyried y cwestiwn arall (A ddylai'r Deyrnas Unedig aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu adael yr Undeb Ewropeaidd?).

Byddem hefyd yn croesawu eglurhad ynghylch a yw'n debygol y bydd unrhyw ymgynghori pellach ar faterion eraill yn ymwneud â'r refferendwm. Yn benodol, byddem yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau ar ddyddiad yr etholiad arfaethedig a'r garfan etholiadol.

Yn gywir

David Melding AC
**Cadeirydd**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.